CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2014. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd: Ieuan Williams** **Ward: Lligwy**

**Grwp: Annibynnol**

**Rôl a Chyfrifoldebau**

Arweinydd y Cyngor a Chadeirydd y Pwyllgor Gwaith, deilydd portffolio Addysg (Dysgu Gydol Oes)

| **Rhwng Mai 2013 a Mawrth 2014, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | *** Ffigyrau Presenoldeb (darparwyd gan CSYM)** |
|---|---|
| Penodiadau (Cadeirydd) | 7 (87%) |
| Panel Rhiantu Corfforaethol | 0 (0%) |
| Cyngor | 12 (92%) |
| Pwyllgor Gwaith | 11 (91%) |
| * Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir. | |

Aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn.

AELOD O'R CYRFF ALLANOL CANLYNOL –
Bwrdd Gwasanaeth Lleol ar y Cyd (Môn a Gwynedd)
Cydbwyllgor Addysg Cymru
Cydbwyllgor Rhanbarthol Effeithlonrwydd a Gwella Ysgol
Cymdeithas Awdurdodau Lleol Cymru
Pwyllgor Rheoli CYNNAL
Fforwm Economaidd Gogledd Cymru
Grŵp Llandrillo Menai
Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn
Llys Llywodraethwyr Prifysgol Cymru, Bangor
Medrwn Môn
Pwyllgor Cyswllt Sector Wirfoddol

**Gweithgareddau yn yr Etholaeth**

Wrth gyfrif nifer yr ymholiadau yn fy llyfr cofnodion rwyf wedi delio efo oddeutu 100 o geisiadau am gymorth neu wybodaeth o wahanol fathau. Mae'r rhain yn disgyn o dan y penawdau isod –

Tai – Nid yw aelodau yn rhan o'r weithdrefn gosod tai ond maent yn gallu cynrychioli darpar denant mewn trafodaethau ar bwyntiau os yw'r darpar denant wedi rhoi caniatâd iddynt. Yn y maes yma rwyf wedi helpu i wneud yn sicr fod gan ddarpar denantiaid y nifer cywir o bwyntiau a gwneud ymholiadau ar ran tenantiaid ynglŷn â gwaith atgyweirio.

Priffyrdd - ceisiadau i atgyweirio tyllau, waliau, torri gwair ar ymyl ffyrdd, arwyddion, goryrru, goleuadau stryd a materion diogelwch yn Sgwâr Benllech.

Llwybrau Cyhoeddus - ceisiadau i gynnal a chadw llwybrau.

Gwastraff - helpu i gael adnewyddu biniau.

Cynllunio - ymholiadau yn ymwneud â pholisi, ymholiadau i weld lle mae'r adran ar ddelio efo cais cynllunio, cwynion gan drigolion sydd yn anfodlon gyda phenderfyniadau, ceisiadau i mi siarad fel aelod lleol ar geisiadau cynllunio.

Byddaf yn mynychu Cyngor Cymuned Llanfairmathafarneithaf fel aelod a Chyngor Cymuned Pentraeth fel Cynghorydd Sir.

Rwyf yn Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Goronwy Owen lle bu arolwg Estyn yn ddiweddar ac rwyf yn aelod o gorff Llywodraethwyr Ysgol Syr Thomas Jones.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rwyf wedi gweithio gyda grŵp cymunedol a'r prosiect Cymunedau Oedran Cyfeillgar i sefydlu lleiniau garddio ym Menllech.

Fel deilydd portffolio addysg rwyf wedi bod yn ymwneud â materion strategol addysg gan gynnwys gyrru'r agenda moderneiddio addysg ar y sir yn ei flaen yn wleidyddol.

Cynrychioli'r Sir fel Arweinydd Gwleidyddol mewn nifer o ddigwyddiadau, gweithgareddau a chyfarfodydd dros y flwyddyn - Sioe Frenhinol Llanelwedd, Sioe Môn, cyfarfodydd Arweinwyr Gogledd Cymru, cyfarfodydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Cynrychioli'r Sir ar dasglu'r Gweinidog Llywodraeth Leol ar drafnidiaeth.

**Dysgu a Datblygu**

| **Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i darparu gan CSYM):** | |
|---|---|
| Cyflwyniad i wasanaeth cefnogi Aelodau | Mai 2013 |
| Fframwaith Moesegol (côd ymddygiad) | Mai 2013 |
| Iaith Gymraeg/Diogelu Data/y Wasg a'r Cyfryngau | Mai 2013 |
| Hyfforddiant ar y Gofrestr Diddordebau | Mai 2013 |
| Asesu anghenion datblygu Aelodau | Mehefin 2013 |
| Craffu data perfformiad | Gorffennaf 2013 |
| Sesiwn 2 i'r Pwyllgor Gwaith | Gorffennaf 2013 |
| Sesiwn 3 i'r Pwyllgor Gwaith | Gorffennaf 2013 |
| Sesiwn 4 i'r Pwyllgor Gwaith | Gorffennaf 2013 |
| Sesiwn 5 i'r Pwyllgor Gwaith | Awst 2013 |
| Gwneud i'r Cyfryngau Cymdeithasol weithio i Gynghorwyr | Medi 2013 |
| Sesiwn 6 I'r Pwyllgor Gwaith | Medi 2013 |
| Hyfforddiant ar ymwybyddiaeth cydraddoldeb | Medi 2013 |
| Hyfforddiant Recriwtio Da | Medi 2013 |
| Hyfforddiant ar Adolygiadau Datblygiad Personol | Hydref 2013 |
| Cyflwyniad cyffredinol ar Gynllunio | Rhagfyr 2013 |
| Adolygu Effeithiolrwydd Archwilio | Ionawr 2014 |
| Sesiwn 3 – Pwyllgor Gwaith Cysgodol | Ionawr 2014 |

Rwyf hefyd wedi mynchu cwrs Arweinyddiaeth Academi Cymru.

**Gweithgareddau a Materion Eraill**

Mae rôl yr Arweinydd yn un llawn amser sy'n golygu fy mod yn treulio'r mwyafrif o fy amser mewn nifer fawr o gyfarfodydd y pwyllgorau a'r sefydliadau sydd wedi eu nodi yn y blwch rôl a chyfrifoldebau. Yn ogystal â hyn mae disgwyl i mi fynychu cyfarfodydd sgriwtini ac archwilio er mwyn cynrychioli'r pwyllgor gwaith neu yn fy rôl fel deilydd portffolio addysg.

Mae rhaid i'r Arweinydd baratoi adroddiad blynyddol i'w gyflwyno yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor Sir ym mis Mai ar waith y Cyngor.

**Cynghorydd I Williams** **Ebrill 2014**